

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynllunio a darparu gweithgareddau datblygu i blant a phobl ifanc yn seiliedig ar eu hanghenion a nodwyd. Gallai'r gweithgareddau fod yn rhan o gynllun a luniwyd i fynd i'r afael ag agweddau ar ymddygiad plentyn neu berson ifanc neu gallant fod yn rhan o raglen y mae'r unigolyn wedi ymrwymo iddi'n wirfoddol. Ymhlith gweithgareddau felly hefyd y mae'r rhai sydd â'r nod o ddatblygu'r unigolyn neu hybu hunanymwybyddiaeth, neu'r rhai sydd â phwrpas therapiwtig.

Mae'r safon hon hefyd yn ymwneud ag annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. nodi gweithgareddau datblygu addas sydd:
2. paratoi gweithgareddau datblygu sydd:
 - yn briodol i anghenion y plentyn neu'r person ifanc,
 - magu ymhellach gryfderau a diddordebau plant a phobl ifanc
3. hyrwyddo manteision gweithgareddau datblygu i blant a phobl ifanc
4. darparu gwybodaeth am weithgareddau datblygu i blant a phobl ifanc mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion
5. helpu plant a phobl ifanc i gymryd rhan ar lefel sy'n briodol i'w hanghenion a'u galluoedd
6. cyfathrebu ar lefel a chyflymder sy'n briodol i blant a phobl ifanc
 1. nodi nodau realistig ar gyfer plant a phobl ifanc yn unol â'u hanghenion
8. cytuno sut y bydd llwyddiant y gweithgaredd yn cael ei werthuso i fynd i'r afael ag anghenion plant a phobl ifanc
9. sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a mynd i'r afael ag unrhyw beryglon neu broblemau mewn ffyrdd sy'n annog cyfranogiad llawn pawb sy'n cymryd rhan
10. paratoi offer a deunyddiau sy'n ddigonol, yn ddiogel, yn barod i'w defnyddio, a sicrhau eu bod yn hawdd eu cyrraedd
11. hwyluso plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu, gan roi digon o wybodaeth ac arweiniad iddynt i'w galluogi i gymryd rhan
12. cefnogi plant a phobl ifanc i wneud sylwadau ar eu profiadau gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu priodol
13. rhoi adborth i blant a phobl ifanc ar lefel a chyflymder sy'n briodol iddynt sy'n annog eu datblygiad a'u cyfranogiad

14.gofyn am gyngor gan bobl eraill berthnasol pan fydd y plentyn neu'r person ifanc yn cael anhawster neu'n ymateb yn negyddol i'r rhaglen

15.trafod gyda'r plentyn neu'r person ifanc a phobl eraill berthnasol y cynnydd y maent wedi'i wneud tuag at y nodau a osodwyd ac unrhyw broblemau a gafwyd

16.addasu'r gweithgaredd ar ôl trafod gyda'r plentyn neu'r person ifanc lle mae'n ymddangos ei fod yn amhriodol, neu lle nad yw adnoddau'n addas

17.adolygu effeithiolrwydd y gweithgareddau datblygu o ran cyrraedd y nodau y cytunwyd arnynt

18.cytuno a gweithredu strategaethau a dulliau amgen ar gyfer hyrwyddo datblygiad y plentyn neu'r person ifanc lle mae anawsterau wrth gyrraedd y nodau y cytunwyd arnynt

19.hysbysu pobl eraill berthnasol lle mae gweithgareddau wedi bod yn effeithiol neu'n aneffeithiol

20.cadw cofnodion o weithgareddau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1.
deddfwriaeth berthnasol a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol sy'n berthnasol i'ch sefydliad eich hun ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud
2.
pwysigrwydd bod dysgu'n digwydd mewn cyd-destun sy'n ystyrlon i'r plentyn neu'r person ifanc
3.
pwysigrwydd cysylltiadau clir rhwng anghenion y plentyn neu'r person ifanc a lefel a dwyster y gweithgareddau a gynlluniwyd
4.
pwysigrwydd cael amcanion clir, wedi'u blaenoriaethu, a pham y dylid gwerthuso ac adolygu amcanion datblygu
5.
pam y dylid annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn cynllunio, a pham mae eu barn ar effeithiolrwydd y gweithgaredd yn bwysig
6.
ymhle y dylid cael cydsyniad y plentyn neu'r person ifanc i weithgareddau a'r berthynas rhwng hyn a hyrwyddo ei hawliau
7.
pam y dylid annog y plentyn neu'r person ifanc i gymryd rhan a dulliau o gyflawni hyn
8.
rhesymau pam y dylid rhoi amser a lle i'r plentyn neu'r person ifanc ddatblygu'r sgiliau sydd ganddo ac i wneud sylwadau ar ei gynnydd ei hun
9.
pam y dylid rhoi gwybod i'r sawl perthnasol am anawsterau a gafwyd gan y plentyn neu'r person ifanc neu ymatebion andwyol i'r gweithgaredd datblygu
10.
pwysigrwydd gwerthuso ac addasu rhaglenni ar gyfer unigolion, dulliau ar gyfer cyflawni hyn, a pham mae lledaenu gwybodaeth am yr hyn sydd wedi gweithio yn bwysig
11.
pam y dylid ceisio cyngor a gweithredu yn ei gylch cyn gynted ag y bydd

amheuaeth am raglenni i blant a phobl ifanc

12.

yr ystod o weithgareddau datblygu sydd ar gael a'r gwahanol fanteision a gwerth y gallant eu cynnig i blant a phobl ifanc

13.

sut y gellir defnyddio gweithgareddau i gynyddu potensial ac effeithiolrwydd, hunanddatblygiad a chyfrifoldeb personol

14.

sut i addasu amgylcheddau ar gyfer gwahanol grwpiau o blant a phobl ifanc ag anghenion gwahanol

15.

patrymau datblygu arferol a'r cynnydd y bydd plant a phobl ifanc yn ei wneud i gyrraedd nodau

16.

sut i gyfathrebu â phlant a phobl ifanc a sut i addasu yn briodol

17.

y gwahaniaeth rhwng adborth cadarnhaol ac adeiladol a sut y gall hyn gynorthwyo datblygiad y plentyn neu'r person ifanc

18.

dulliau o roi cymorth i blant a phobl ifanc i gynorthwyo eu datblygiad a phan fyddant yn cael anawsterau neu'n ymateb yn andwyol

19.

egwyddorion cyfiawnder adferol

20.

pwysigrwydd bod yn esiampl i blant a phobl ifanc

21.

gwahanol ymatebion trawma a'u heffaith ar blant a phobl ifanc

22.

pwysigrwydd cadw at godau proffesiynol neu safonau ymarfer

23.

mathau o gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen ar blant a phobl ifanc

SFJG11

Paratoi a darparu gweithgareddau datblygu i blant a phobl ifanc



Datblygwyd gan	Skills for Justice
Fersiwn rhif	3
Dyddiad cymeradwyo	31 Maw 2025
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2030
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Justice
RCU gwreiddiol	SFJG11
Galwedigaethau perthnasol	Swyddog Tîm Troseddwr Ifanc, Swyddog Cyfiawnder Ieuencid, Rheolwr Cyfiawnder Ieuencid, Gweithiwr Tîm Troseddwr Ifanc, Rheolwr Tîm Troseddwr Ifanc
Cyfes/Set	Cyfiawnder Ieuencid, Ailsefydlu Troseddwr
Geiriau Allweddol	Gweithgareddau datblygu; hunanymwybyddiaeth; therapiwtig; cymorth; gwerthuso
